





Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Egwyddorion Cadwraeth

www.cymru.gov.uk

ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol
Cymru mewn ffordd gynaliadwy



Rhagair

Mae pobl Cymru wedi etifeddu amgylchedd hanesyddol unigryw. Crëwyd yr amgylchedd hwn gan genedlaethau'r gorffennol ac mae'n dangos yn glir ein gwreiddiau ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae'r hanes o'n hamgylch yn rhoi i ni ymdeimlad o le ac yn ein helpu i ddiffinio ein hunain fel cenedl. Mae treftadaeth Cymru hefyd yn gyfoethog ac amrywiol iawn. Ceir rhai elfennau o bwys rhyngwladol ac mae'n gwbl deilwng eu bod wedi cael cydnabyddiaeth fyd-eang fel Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o asedau hanesyddol lu ein hamgylchedd hanesyddol yw cestyll canoloesol mawreddog Gwynedd ac etifeddiaeth y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru. Mae'r holl dirwedd wledig a threfol yn ased hanesyddol; mae'n cynnwys elfennau na fyddent, ar eu pen eu hunain efallai, yn ymddangos yn arwyddocaol, ond gyda'i gilydd maent yn diffinio'r lleoedd rydym yn byw ynddynt.

Eto, mae'r amgylchedd hanesyddol hwn yn adnodd bregus hefyd. Mae gennym rwymedigaeth a dyletswydd i reoli newid mewn ffordd sensitif a chynaliadwy ac i sicrhau bod yr hyn sy'n arwyddocaol yn cael ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ased, nid yn rhwystr i newid. Yn yr un modd, rhaid cydnabod unwaith y caiff elfennau eu dinistrio neu eu newid, mai prin y gellir eu hadfer. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i sicrhau y cyflawnir y cydbwysedd hwn. Mae asedau hanesyddol Cymru ym meddiant rhanddeiliaid amrywiol: cyhoeddus a phreifat, crefyddol a seciwlar, y trydydd sector, llywodraeth leol a chanolog. Fel ceidwaid y dreftadaeth hon mae angen i berchenogion lleoedd hanesyddol o bwys gael eu harwain gan athroniaeth cadwraeth a fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau. Ein bwriad yw i'r egwyddorion cadwraeth a geir yn y ddogfen hon helpu i gyfleu'r athroniaeth hon.

Bydd yr egwyddorion hefyd yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei gwaith. Ym mis Mai 2009, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Cymru'n *Un: Cenedl Un Blaned*, sy'n nodi'r ffordd y mae'n dymuno datblygu Cymru mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl, a hynny'n gynaliadwy. Yn y ddogfen hon cydnabyddir diwylliant a threftadaeth gyfoethog Cymru fel cyfrwng i adfywio ac i feithrin nodweddion a natur unigryw leol. Gellir hefyd weld y themâu hyn yn ymddangos yn *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Amgylcheddol Cymru*. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth *Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru* ym mis Hydref 2009, sy'n pwysleisio'r rhan allweddol y gall treftadaeth ei chwarae ym maes datblygu economaidd a chymdeithasol cynaliadwy. Bwriad yr egwyddorion cadwraeth a nodir yma yw cyflwyno'r fframwaith ar gyfer llywio'r gwaith o gyflawni hyn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad, drwy Cadw, ei hisadran amgylchedd hanesyddol, yn bwriadu gweithredu'r egwyddorion hyn wrth iddi ymgymryd â'r gwaith a wna ar safleoedd y mae'n berchen arnynt ac yn gofalu amdanynt, ac wrth benderfynu ar geisiadau sy'n dod ger ei bron. Mae Cadw hefyd yn bwriadu gweithredu'r egwyddorion hyn wrth gyfrannu at bolisiau a chanllawiau cynllunio'r dyfodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol a rhaglenni lle mae'n rhoi cymorth ariannol. Rhoddir anogaeth gref i sefydliadau ac unigolion eraill yng Nghymru i'w defnyddio wrth ystyried newidiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

Cromlech Pentre Ifan yn Sir Benfro oedd y safle hanesyddol cyntaf yng Nghymru i gael ei warchod yn gyfreithiol. Dros y 125 mlynedd ers hynny, gwnaed cryn ymdrech i warchod ein hamgylchedd hanesyddol. Mae Cadw, drwy ei rhaglenni dynodi statudol ac anstatudol, wedi nodi miloedd ar filoedd o asedau hanesyddol y mae'n werth eu gwarchod yn yr hirdymor, gan gynnwys safleoedd archeolegol, adeiladau hanesyddol, llongddrylliadau o dan y dŵr a pharciau a gerddi hanesyddol. Gellir ystyried bod y gwaith o warchod y fath asedau hanesyddol pwysig rhag cael eu dinistrio'n ddiangen neu eu newid yn annoeth yn un o lwyddiannau mawr yr ugeinfed ganrif.

Fodd bynnag, mae'r asedau hanesyddol dynodedig hyn mewn tirweddau hanesyddol ehangach. Mae'r angen i feithrin dealltwriaeth fanwl o'r tirweddau hyn a'u rheoli wedi arwain at sefydlu *Cofrestr o Dirweddau Hanesyddol*, sy'n unigryw i Gymru. Mae astudiaethau manwl o nodweddion hefyd yn cael eu cynnal, sy'n diffinio ardaloedd yn ein tirweddau trefol a gwledig sy'n meddu ar nodweddion hanesyddol penodol ac unigryw. Mae astudiaethau o'r fath yn fodd i asesu effeithiau datblygiad neu newid defnydd tir arall yn wrthrychol ac maent hefyd yn tynnu sylw at y cyfleoedd i'r nodweddion hanesyddol hynny chwarae rhan mewn gwaith adfywio.

Ceir gwerthfawrogiad cynyddol o bwysigrwydd a gwerth ychwanegol treftadaeth. Fodd bynnag, mae newid a dirywiad yn anochel a bydd gwarchod pob rhan o ased hanesyddol neu'r holl dirwedd hanesyddol yn amhosibl. Amcan *Egwyddorion Cadwraeth* yw atal dirywiad a rheoli newid, fel y gellir trosglwyddo gwerthoedd arwyddocaol asedau hanesyddol unigol neu dirweddau hanesyddol er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Yng Nghymru mae'n rhaid i'r dyfodol hwnnw fod yn gynaliadwy; mae angen i fuddsoddiad yn yr amgylchedd hanesyddol esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae hefyd angen cydnabod effaith newid ar werth ein hamgylchedd hanesyddol a'i rheoli.

Marilyn Lewis

Cyfarwyddwr Cadw
Mawrth 2011

Cynnwys

Cyflwyniad 5

Nodau	5
Cydberthynas â dogfennau polisi eraill	7

Egwyddorion Cadwraeth 9

Egwyddor 1	Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd	9
Egwyddor 2	Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig	10
Egwyddor 3	Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir	11
Egwyddor 4	Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol	12
Egwyddor 5	Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson	13
Egwyddor 6	Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt	14
	Cyflawni'r egwyddorion cadwraeth	15
	Deall gwerthoedd treftadaeth ac asesu arwyddocâd	16
	Rheoli'r broses o newid ased hanesyddol	18

Egwyddorion Cadwraeth ar Waith 21

Rhagair	21
Gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd	22
Gwaith atgyweirio	22
Gwaith adnewyddu cyfnodol	24
Ymyriadau archeolegol	24
Gwaith adfer	26
Gwaith newydd a gwaith addasu	28
Cyfuno gwaith cadwraeth â buddiannau eraill	30
Datblygiad galluogi	32

Diffiniadau 35



Cyflwyniad

Nodau

Mae'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd treftadaeth ddiwylliannol Cymru ynghyd â'i hymdeimlad o hunaniaeth. Mae'n adnodd a ddylai gael ei gynnal er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. Yn y ddogfen hon, mae Cadw, is-adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn nodi dull rhesymegol o wneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd *Egwyddorion Cadwraeth* yn helpu i gysoni'r broses o warchod amgylchedd hanesyddol â'r anghenion economaidd a chymdeithasol, a dyheadau'r bobl sy'n byw ynddo.

Mae'r chwe egwyddor cadwraeth a nodir isod yn seiliedig ar y rheini a luniwyd gan English Heritage ac a gyhoeddwyd yn 2008 (www.englishheritage.org.uk/conservation/principles). Mae Cadw wedi addasu'r egwyddorion hyn i'w defnyddio yng Nghymru ac mae ein dyled yn fawr i English Heritage a ddatblygodd ei hegwyddorion ar ôl cryn dipyn o ymgynghori â sefydliadau allanol. Mae llawer o'r paragraffau esboniadol hefyd wedi'u haddasu o'r ddogfen *Conservation Principles, Policies and Guidance*, ond maent wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion Cymru. Mae'n cynnwys yr adrannau canlynol sef 'Understanding Heritage Values,' 'Assessing Heritage Significance' a 'Managing Change to Significant Places', sy'n ymhelaethu ar y meysydd hyn. Yn y ddogfen hon, mae Cadw wedi llunio crynodeb symlach a mwy hygyrch sef 'Deall gwerthoedd treftadaeth ac asesu arwyddocâd'. Mae sefydliadau eraill, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban, hefyd wedi llunio eu dogfennau perthnasol eu hunain ac mae meddylfryd cyson yn dod i'r amlwg.

Bydd *Egwyddorion Cadwraeth* yn llywio'r ffordd y mae Cadw yn mynd ati i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y materion hynny sy'n ymwneud â chynnwys y gymuned, dysgu a mynediad a drafodir yn Egwyddor 3. Byddant yn sicrhau bod ein camau gweithredu a'n penderfyniadau yn gyfiawn ac yn gyson. Bydd yr adran ganlynol, sef 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith', yn helpu Cadw i weithredu ei hegwyddorion wrth iddi chwarae rhan yn y gwaith datblygu, a rheoli'r safleoedd hanesyddol y mae'n gofalu amdanynt. Fodd bynnag, rhoddir anogaeth

*Llys yr Esgob Tyddewi,
Sir Benfro*

*Mae'r defnydd arloesol
o rendr aberthol a gosod
rhywfaint o gerrig newydd
wedi sicrhau bod y safle
hwn yn cael ei gadw ar
gyfer y dyfodol.*

gref i sefydliadau ac unigolion eraill megis awdurdodau lleol, perchenogion eiddo, datblygwyr, a'u cynghorwyr, i ddefnyddio *Egwyddorion Cadwraeth* wrth wneud penderfyniadau.

Mae tirwedd wledig a threfol gyfan Cymru yn ased hanesyddol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl diffinio elfennau unigol o'r amgylchedd hanesyddol, yn fach neu'n fawr, gan gynnwys y rheini sydd o dan y ddaear neu o dan y dŵr; y gellir eu galw'n asedau hanesyddol penodol. Mae angen i asedau hanesyddol, neu gyfuniadau o asedau hanesyddol, o unrhyw faint, gan gynnwys adeiladau hanesyddol, safleoedd archeolegol, ardaloedd hanesyddol neu dirweddau, gael eu deall a'u rheoli ar lefelau gwahanol ac at ddibenion gwahanol. Mae pob ased hanesyddol hefyd wedi'i leoli ar safle a fydd yn meddu ar werthoedd amgylcheddol naturiol yn ogystal â gwerthoedd treftadaeth. Fodd bynnag, pan fo'r ddogfen hon yn cyfeirio at 'adeiledd', dim ond at y rhannau hynny o'r safle o waith dyn y mae'n cyfeirio. Dylid hefyd bwysleisio nad yw'r egwyddorion cadwraeth ond yn gymwys i'r asedau hanesyddol hynny sy'n bodloni meini prawf penodol o ran arwyddocâd sy'n angenrheidiol at ddibenion dynodi rhyngwladol, cenedlaethol neu leol ffurfiol (er enghraifft drwy broses gofrestru neu broses rhestru a chofrestru statudol).

Mae'r broses o reoli safle mewn ffordd gynaliadwy yn dechrau drwy feithrin dealltwriaeth o'i werthoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ac yna nodi ei arwyddocâd. Yn dilyn hynny mae'n hanfodol bod pawb sy'n gysylltiedig â'r safle hwnnw, a'r rheini y gall unrhyw gamau a gymerir effeithio arnynt, yn ymwybodol o'r arwyddocâd hwnnw. Dim ond wedyn y bydd modd asesu pa rinweddau sy'n bwysig i bobl, a sut y byddant yn agored i niwed neu golled. Dylai pob penderfyniad ynghylch cadwraeth fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'i heffaith debygol ar arwyddocâd yr adeiledd ac agweddau eraill ar y safle dan sylw.

Yn ôl y diffiniad o gadwraeth a roddir isod (paragraff 1.2) ei hystyr yw 'rheoli newid yn ofalus'. Wrth reoli asedau hanesyddol, mae 'diogelu' — a hyd yn oed dderbyn ei ddiffiniad cyfreithiol sefydledig sef 'peidio â gwneud niwed' — ond yn un rhan o'r hyn sydd ei angen i gynnal gwerthoedd treftadaeth. Er enghraifft, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol 'ddiogelu neu wella' ardaloedd cadwraeth. Mae hyn yn helpu i bwysleisio'r potensial am newid buddiol i asedau hanesyddol drwy ddatgelu ac atgyfnerthu eu gwerthoedd treftadaeth. Mae 'cynnal' yn cwmpasu meysydd diogelu a gwella i'r graddau ag y bo gwerthoedd lle yn caniatáu hynny. Mae 'newid ystyriol' yn cynnig y potensial i wella asedau hanesyddol, yn ogystal â chreu'r angen i warchod eu gwerthoedd treftadaeth sefydledig. Dyma sut mae pob cenedlaeth yn dyheu am gyfoethogi'r amgylchedd hanesyddol.

Cyberthynas â dogfennau polisi eraill

Rhoddir canllawiau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar warchod yr amgylchedd hanesyddol ym mhennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru*. Mae'r ddogfen hon bellach ar gael ar-lein (<http://cymru.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2010/?lang=cy>) a chaiff ei diweddarau'n gyfnodol. Fe'i hategir gan:

Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg

Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

Bydd fersiynau pellach o bennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* a chanllawiau ategol yn croesgyfeirio at agweddau ar yr egwyddorion cadwraeth hyn ac yn cael eu llywio ganddynt.

Ceir hefyd ganllawiau perthnasol yn y Nodiadau Cyngor Technegol canlynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sef TAN 12: *Dylunio*, TAN 22: *Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy* a TAN 8: *Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy*.

Caiff yr adran ar 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith' ei diweddarau er mwyn cyfeirio at unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â threftadaeth ynghyd â pholisïau a gyflwynir gan y Llywodraeth a'u hadlewyrchu, ac yn sgîl y profiad sy'n deillio o'u defnyddio.

Ar lefel ryngwladol,¹ mae'r egwyddorion cadwraeth yn adlewyrchu llawer o ragdybiaethau *Confensiwn Treftadaeth y Byd*, gyda'r alwad i bennu swyddogaeth i dreftadaeth naturiol a diwylliannol ym mywyd cymunedau. Mae *Egwyddorion Cadwraeth* yn gyson â *Chonfensiwn Granada* ar warchod y dreftadaeth bensaernïol a *Chonfensiwn Valletta* ar warchod y dreftadaeth archeolegol, y mae ill dau wedi'u hardystio gan y Deyrnas Unedig. Mae'r *Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd*, sydd hefyd wedi'i ardystio gan y Deyrnas Unedig, wedi bod yn ddylanwadol, yn arbennig oherwydd ei ddiffiniad o dirwedd fel ardal, fel y'i canfyddir gan bobl, a'i gyfeiriadau at yr angen i ystyried cynnal gwerthoedd diwylliannol wrth reoli pob tirwedd, yn ogystal â phwysigrwydd cynnwys y cyhoedd yn y broses honno.

¹ *Convention concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage* (UNESCO, 1972)

Convention for the Protection of the Architectural Heritage of Europe (Granada: Cyngor Ewrop, 1985, ETS 121)

European convention on the Protection of the Archaeological Heritage (Valletta: Cyngor Ewrop, 1992, ETS 143)

European Landscape Convention (Fflorens: Cyngor Ewrop, 2000, ETS 176)



Egwyddorion Cadwraeth

I Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd

- I.1 Mae'n anochel y bydd yr amgylchedd hanesyddol yn newid. Gall hyn ddigwydd oherwydd y dirywio a achosir gan brosesau naturiol, difrod a achosir gan ddefnydd parhaus, a'r angen i ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a thechnolegol. Mae effaith newid yn yr hinsawdd ar asedau hanesyddol yn her benodol.
- I.2 Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Cyfeiria at y broses o ddatgelu a rhannu natur arwyddocaol asedau hanesyddol a sicrhau bod eu nodweddion arbennig yn cael eu diogelu, eu gwella, eu mwynhau a'u deall gan genedlaethau heddiw ac yfory.
- I.3 Er mwyn bod yn gynaliadwy, dylai unrhyw fuddsoddiad yng nghadwraeth yr amgylchedd hanesyddol esgor ar fuddiannau cymdeithasol ac economaidd. Ar y llaw arall, dylai buddsoddi mewn rhaglenni cymdeithasol ac economaidd esgor ar fuddiannau amgylcheddol.
- I.4 Eir ati i sicrhau cadwraeth ased hanesyddol drwy feithrin a rhannu dealltwriaeth o'i natur arwyddocaol (gweler Egwyddorion 2 a 3). Bydd y fath ddealltwriaeth yn arwain at gyflawni'r canlynol:
- Nodi'r gwerthoedd treftadaeth hynny sy'n agored i newid.
 - Diffinio'r cyfyngiadau sydd eu hangen i ddatgelu, gwarchod a chynnal y gwerthoedd hynny.
 - Sicrhau cydbwysedd rhwng effaith yr opsiynau gwahanol ar y gwerth treftadaeth ac arwyddocâd yr asedau yr effeithir arnynt.
 - Gwneud penderfyniadau mewn modd cyson, sy'n anelu at gynnal dilystrwydd yr ased hanesyddol a'i arwyddocâd yn y dyfodol.
- I.5 Mae pob gweithred sy'n ymwneud â chadwraeth treftadaeth yn arwain at ymyriadau. Rhaid cyfiawnhau'r rhain drwy ddangos bod buddiannau gwarchod yr ased hanesyddol, meithrin dealltwriaeth ohono a chynnal ei werthoedd treftadaeth yn gorbwyso'r colledion a'r niwed a achosir, a hynny'n bendant.
- I.6 Rhaid i waith newydd barchu lleoliad ac arwyddocâd yr asedau hanesyddol yr effeithir arnynt. Rhaid i ansawdd y gwaith dylunio a'r broses o'i wireddu ychwanegu gwerth at y safle hwnnw a'i lleoliad, nawr ac yn y dyfodol.

*Tŷ Mawr, Castell
Caereinion, Powys
Trawsnewidiwyd cragen
ffrâm bren y ffermdy hwn
o ddiwedd yr oesoedd
canol o fod yn adfail i fod
yn gartref hardd modern.*

- 1.7 Rhaid i gadwraeth yr amgylchedd hanesyddol gydnabod a pharchu gwerthoedd amgylcheddol naturiol cysylltiedig. Cyflawnir hyn drwy ymdrin â gwaith cadwraeth mewn modd integredig sydd wedi nodi gwerthoedd naturiol a hanesyddol pob ased.

2 Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig

- 2.1 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol, safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol yn ogystal â'r tirweddau y'u lleolir ynddynt. Ystyrir yma fod unrhyw ran o'r amgylchedd hanesyddol y mae pobl wedi pennu cysylltiad hanesyddol ag ef neu wedi rhoi hunaniaeth hanesyddol unigryw iddo yn ased hanesyddol.
- 2.2 Mae natur arwyddocaol ased hanesyddol yn cwmpasu'r holl werthoedd treftadaeth ddiwylliannol y mae pobl yn eu cysylltu ag ef, neu sy'n gwneud iddynt ymateb iddo. Mae'r gwerthoedd hyn yn dueddol o gryfhau a mynd yn fwy cymhleth dros amser, wrth i bobl feithrin dealltwriaeth ac wrth i'w canfyddiadau ddatblygu.
- 2.3 Er mwyn asesu arwyddocâd ased hanesyddol, mae angen ystyried pedwar gwerth cydrannol, sef:
- Gwerth tystiolaethol
 - Gwerth hanesyddol
 - Gwerth esthetig
 - Gwerth cymunedol

Eglurir y rhain yn fanylach yn yr adran 'Deall gwerthoedd treftadaeth ac asesu arwyddocâd' (tudalen 16) ond, yn fras, gallant gwmpasu: olion ffisegol neu adeiledd presennol ased hanesyddol (tystiolaethol); cyfraniad ffynonellau dogfennol, cofnodion darluniadol a chasgliadau amgueddfeydd i feithrin dealltwriaeth o ased hanesyddol (tystiolaethol); sut y gall asedau hanesyddol drwy werthoedd esboniadol neu gysylltiadol gysylltu'r gorffennol â'r presennol (hanesyddol); y ffordd y mae pobl yn cael mwynhad synhwyrol a deallusol o ased hanesyddol drwy ei ffurf, golwg allanol neu leoliad (esthetig); y gwerthoedd cymdeithasol ac economaidd, a'r ystyron ysbrydol, sydd gan ased hanesyddol i'r bobl sy'n uniaethu ag ef (cymunedol).

- 2.4 Mae angen deall a chyfleu gwerthoedd ased hanesyddol er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch ei ddyfodol. Mae graddau ei arwyddocâd yn pennu pa fath o gamau, os o gwbl, gan gynnwys dynodiad statudol, sy'n briodol yn unol â'r gyfraith a pholisi.

3 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir

- 3.1 Mae ein hamgylchedd yn cynnwys cofnod unigryw a dynamig o weithgarwch dynol. Fe'i lluniwyd gan genedlaethau olynol o bobl yn ymateb i'r amgylchoedd a etifeddwyd ganddynt. Mae'n cwmpasu eu dyheadau, sgiliau ac ymdrechion.
- 3.2 Mae pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol hwn fel rhan o'u treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Mae'n adlewyrchu gwybodaeth, credoau a thraddodiadau cymunedau amrywiol. Mae'n rhoi natur unigryw, ystyr ac ansawdd i'r lleoedd rydym yn byw ynddynt, gan gynnig ymdeimlad o barhad a ffynhonnell ar gyfer hunaniaeth. Mae'n ased cymdeithasol ac economaidd ac yn adnodd dysgu a mwynhau.
- 3.3 Felly mae pob cenedlaeth yn gyfrifol am lunio a chynnal yr amgylchedd hanesyddol er mwyn galluogi pobl i'w ddefnyddio, ei fwynhau a chael budd ohono, heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un peth.
- 3.4 Bydd prosiectau cadwraeth yn cydnabod yr angen i hyrwyddo gwell mynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob grŵp mewn cymdeithas.
- 3.5 Mae gan y cyhoedd fuddiant mawr yng ngwerthoedd treftadaeth lleoedd gwahanol, waeth pwy sy'n berchen arnynt. Cyfiawnheir y defnydd o'r gyfraith, polisi cyhoeddus a buddsoddiad i warchod y buddiant hwnnw. Mae'r gweithdrefnau cyfreithiol sydd eu hangen i gael caniatâd cynllunio a chaniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fodd i gymrodeddu rhwng buddiannau preifat a chyhoeddus.
- 3.6 Mae angen i berchenogion a meddianwyr gydnabod a deall arwyddocâd eu hasedau hanesyddol, a cheisio cyngor a chymorth oddi wrth ffynonellau cyhoeddus er mwyn eu helpu i gynnal y dreftadaeth maent yn gyfrifol amdani.

4 Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol

- 4.1 Dylai pawb gael y cyfle i rannu eu gwybodaeth am werth treftadaeth safleoedd gwahanol, a helpu i wneud penderfyniadau ynghylch eu dyfodol, mewn ffyrdd hygrych, cynhwysol a hyddysg. O ganlyniad bydd modd gwneud penderfyniadau am ased hanesyddol pwysig mewn ffordd agored a thryloyw (gweler hefyd Egwyddor 5).
- 4.2 Mae rhannu'r hyn a ddysgir yn hanfodol er mwyn cynnal yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n codi ymwybyddiaeth pobl ac yn meithrin eu dealltwriaeth o'u treftadaeth, gan gynnwys y ffyrdd amrywiol y canfyddir ei gwerthoedd gan genedlaethau a chymunedau gwahanol. Mae'n annog cyfraniad hyddysg a gweithredol at y gwaith o ofalu am yr amgylchedd hanesyddol.
- 4.3 Mae gwybodaeth ac arbenigedd yn hanfodol er mwyn annog a galluogi eraill i ddysgu am yr amgylchedd hanesyddol, ei werthfawrogi a gofalu amdano. Mae arbenigwyr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddirnad, cyfleu a chynnal gwerthoedd sefydledig lleoedd. Gallant helpu pobl i fireinio a chyfleu'r gwerthoedd y maent yn eu cysylltu â lleoedd.
- 4.4 Mae'n hanfodol datblygu, cynnal a throsglwyddo'r grefft arbenigol a'r wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol sy'n angenrheidiol i gynnal yr amgylchedd hanesyddol.
- 4.5 Ni ddylai pobl weithio ar ased hanesyddol os nad oes ganddynt y sgiliau neu'r cymwysterau priodol i wneud y gwaith hwnnw.

5 Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson

- 5.1 Anogir perchenogion a rheolwyr asedau hanesyddol i geisio cyngor ac enghreifftiau o arfer da wrth baratoi eu cynigion ar gyfer newid.
- 5.2 Bydd awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol drwy arfer arbenigedd, profiad a barn, mewn modd cyson a thryloyw sy'n cael ei lywio gan y gyfraith a pholisi.
- 5.3 Bydd awdurdodau cyhoeddus, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd wrth law, yn cynnal lefel ddigonol o asesiadau ac yn ymgynghori â'r cyhoedd i raddau digonol er mwyn llywio a chyflawnhau'r penderfyniadau a wneir ganddynt.
- 5.4 Wrth ystyried newid, bydd awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw priodol i werthoedd treftadaeth safle wrth ystyried cynaliadwyedd cynigion a gyflwynir iddynt.

6 Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

- 6.1 Dylai'r wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n cael eu dwyn ynghyd wrth fynd ati i ddeall ac asesu arwyddocâd ased hanesyddol gael eu cadw gan berchennog a rheolwr y lle hwnnw, gan roi copi mewn archif gyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael budd o'r wybodaeth a geir.
- 6.2 Caiff y cofnodion sy'n ymwneud â chyfiawnhau penderfyniadau, sy'n effeithio ar ased hanesyddol a'r camau gweithredu dilynol, eu cadw ar ffurf hygyrch a chronnol.
- 6.3 Dylai perchenogion a rheolwyr asedau hanesyddol fonitro effeithiau newid a'r ymatebion iddo, ynghyd â gwerthuso hynny'n rheolaidd, a defnyddio'r canlyniadau i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Yn yr un modd, dylai cyrff cyhoeddus fonitro effeithiau eu polisiau a'u rhaglenni ar yr amgylchedd hanesyddol ac ymateb iddynt.
- 6.4 Os bydd rhan o ased hanesyddol, neu ased hanesyddol cyfan, yn cael ei golli o ganlyniad i benderfyniad neu broses naturiol anochel, sy'n beth anghyffredin, rhaid achub ar y cyfle i ddwyn ynghyd y wybodaeth y mae'n meddu arni am y gorffennol. Bydd angen i'r golled hon gael ei chofnodi ynghyd ag ymchwilio iddi a'i dadansoddi, ac yna bydd angen archifo'r canlyniadau a'u rhannu, a hyn oll ar lefel sy'n cyfleu ei natur arwyddocaol.
- 6.5 Os bydd colled o'r fath yn digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i ymyrraeth ddynol, y rheini sy'n cael budd o'r newid, neu sy'n gyfrifol am gyflwyno'r fath newid er budd y cyhoedd, ddylai dalu am y gwaith hwn.

Cyflawni'r egwyddorion cadwraeth

Mae *Egwyddorion Cadwraeth* yn adeiladu ar ddatganiadau cynharach a phrofiad blaenorol er mwyn ffurfioli dull o weithredu, sy'n ystyried ystod eang o werthoedd treftadaeth. Fe'u hategir gan yr adran isod sy'n disgrifio sut y bydd Cadw yn rhoi'r *Egwyddorion Cadwraeth* ar waith. Eu nod yw helpu pawb dan sylw i ystyried y ffyrdd amrywiol y mae pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol. Maent yn cydnabod bod angen i werthoedd lleoedd, gan gynnwys y rhai a adlewyrchir mewn dynodiadau tirwedd, gael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan feithrin cydberthnasau gwaith agos rhwng buddiannau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol.

Mae penderfyniadau cytbwys a chyfiawnadwy ynghylch newid i'r amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar ddeall pwy sy'n gwerthfawrogi asedau hanesyddol gwahanol a'r rheswm dros hynny, gan arwain at ddatganiad clir o'u harwyddocâd ynghyd â'r gallu i ddeall effaith y newid arfaethedig ar yr arwyddocâd hwnnw.

Dylid gwneud pob ymdrech resymol i ddileu neu leihau effeithiau andwyol ar asedau hanesyddol. Yn y pen draw, fodd bynnag, efallai y bydd angen cydbwysio budd y newid arfaethedig â'r niwed a achosir i'r ased. Os felly, dylai'r pwys a roddir i werthoedd treftadaeth fod yn gymesur â phwysigrwydd yr asedau ac effaith y newid arnynt.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn newid yn barhaus, ond mae pob rhan bwysig ohono'n adnodd cyfyngedig. Os na chaiff ei gynnal, bydd ei werthoedd treftadaeth yn dirywio neu'n diflannu. Hefyd, bydd ei botensial i sicrhau natur unigryw, ystyr ac ansawdd y lleoedd mae pobl yn byw ynddynt, a meithrin ymdeimlad o barhad a ffynhonnell hunaniaeth ymhlith pobl, yn lleihau. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn ased cymdeithasol ac economaidd ac yn adnodd diwylliannol ar gyfer dysgu a mwynhau.

Bydd Cadw yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth reoli'r henebion yn ei gofal a chyflawni ei swyddogaethau statudol. Rhennir yr egwyddorion ag is-adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Cadw yn argymhell y dylai pawb sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru eu mabwysiadu a'u gweithredu, gan gynnwys gwneud hyn wrth wneud penderfyniadau am ei ddyfodol.

Deall gwerthoedd treftadaeth ac asesu arwyddocâd

Amcan deall gwerthoedd treftadaeth ased hanesyddol ac asesu ei arwyddocâd yw ei gwneud yn bosibl llunio datganiad awdurdodedig o arwyddocâd, a gwerthuso effeithiau newidiadau arfaethedig. Mae hyn yn gofyn am ddilyn proses systematig a chyson, sy'n briodol ac yn gymesur o ran cwmpas a dyfnder y penderfyniad i'w wneud, neu ddibyn yr asesiad.

Yn y ddogfen *Conservation Principles, Policies and Guidance* (2008) gan English Heritage cafwyd disgrifiad manwl o werthoedd treftadaeth ac mae'n ymhelaethu ar y broses o asesu arwyddocâd treftadaeth. Nid yw Cadw yn gweld unrhyw reswm dros beidio â mabwysiadu'r gwerthoedd treftadaeth hyn. Isod crynhoir y rhain a cheir crynodeb o'r broses o reoli newid i asedau hanesyddol.

Gwerthoedd treftadaeth

Gwerth tystiolaethol. Mae hwn yn deillio o'r elfennau hynny o ased hanesyddol a all ddarparu tystiolaeth am weithgareddau pobl yn y gorffennol, gan gynnwys ei olion ffisegol neu adeiledd hanesyddol. Gall y rhain fod yn weladwy ac yn gymharol hawdd eu hasesu, neu efallai y byddant wedi'u claddu dan ddaear, dan ddŵr neu fod wedi eu cuddio gan adeiledd diweddarach. Yr olion hyn sy'n darparu'r brif dystiolaeth am sut a phryd y gwnaed ased hanesyddol neu y'i hadeiladwyd a sut mae wedi newid dros amser. Mae colli adeiledd hanesyddol heb ei gofnodi yn golygu y difethir y brif dystiolaeth.

Gellir cael gwerthoedd tystiolaethol ychwanegol oddi wrth ffynonellau dogfennol, cofnodion darluniadol ac archifau archeolegol neu gasgliadau amgueddfeydd. Er mwyn asesu arwyddocâd yr agwedd hon ar ased, mae angen i'r holl dystiolaeth hon gael ei chasglu mewn ffordd systematig gan nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth.

Gwerth hanesyddol. Gall ased hanesyddol adlewyrchu agwedd benodol ar y dyddiau a fu neu gallai fod yn gysylltiedig â theulu, unigolyn, digwyddiad neu fudiad nodedig. Gall y gwerthoedd darlunio neu gysylltiadol sy'n perthyn i ased hanesyddol fod yn llai gweladwy na'i werth tystiolaethol ond yn aml bydd yn cysylltu pobl, digwyddiadau ac agweddau ar fywyd y gorffennol â'r presennol. Wrth gwrs, mae swyddogaethau ased hanesyddol yn debygol o newid dros amser felly efallai na fydd yr ystod lawn o werthoedd hanesyddol newidiol yn glir nes y caiff yr holl werthoedd tystiolaethol eu dwyn ynghyd. Nid yw mor hawdd lleihau gwerthoedd hanesyddol

yn sgîl newid o gymharu â gwerthoedd tystiolaethol a dim ond i'r graddau y mae eu haddasu wedi'u dileu neu eu cuddio y'u niweidir.

Gwerth esthetig. Mae hyn yn deillio o'r ffordd y mae pobl yn cael mwynhad synhwyrol a deallusol o ased hanesyddol. Gallai hyn gynnwys ffurf ased hanesyddol, ei olwg allanol a'i leoliad. Gall fod o ganlyniad i ddyluniad pwrpasol neu, drwy hap a damwain, y ffordd y mae ased hanesyddol wedi esblygu a chael ei ddefnyddio dros amser, neu gall fod yn gyfuniad o'r ddau.

Fel arfer bydd ffurf ased yn newid dros amser. Weithiau bydd cofnodion darluniol cynharach a disgrifiadau ysgrifenedig yn fwy pwerus ym meddyliau llawer o bobl na'r hyn sydd i'w weld heddiw. Gall rhai safbwyntiau pwysig gael eu colli neu eu cuddio, neu efallai na fydd modd cael gafael arnynt dros dro. Er mwyn asesu'r agwedd hon ar ased, rhaid dwyn ynghyd dystiolaeth o'r gorffennol a'r ffurf bresennol mewn modd systematig unwaith eto. Mae angen i hyn gael ei ategu gan werthfawrogiad trylwyr ar y safle o olwg allanol ased yn ei leoliad.

Yn anochel bydd deall gwerth esthetig ased hanesyddol yn fwy goddrychol nag astudio ei werthoedd tystiolaethol a hanesyddol. Bydd cryn dipyn ohono'n cynnwys ceisio mynegi nodweddion esthetig neu werth perthynol rhannau gwahanol o'i ffurf neu ddyluniad. Mae'n bwysig cael barn eraill sy'n meddu ar wybodaeth am yr ased hanesyddol ac yn ei werthfawrogi o ran yr hyn sydd fwyaf pwysig iddynt hwy mewn perthynas â gwerthoedd esthetig.

Gwerth cymunedol. Mae hyn yn deillio o'r hyn y mae ased hanesyddol yn ei olygu i'r bobl sy'n uniaethu ag ef, neu y mae'n bwysig iddynt o ran eu profiadau neu atgofion cyfunol. Mae cysylltiad agos rhyngddo â gwerthoedd hanesyddol ac esthetig ond mae'n cynnwys elfennau ychwanegol neu benodol fel arfer. Gallai gwerth cymunedol fod yn goffaol neu'n symbolaidd. Er enghraifft, gallai rhan o hunaniaeth pobl neu eu hatgofion cyfunol fod yn seiliedig ar ased hanesyddol, neu gallai fod cysylltiadau emosiynol ag ef. Mae gwerthoedd o'r fath yn aml yn newid dros amser a gallant fod yn bwysig o ran cofio digwyddiadau, agweddau neu gyfnodau cadarnhaol ac anghysurus yn hanes Cymru. Gall asedau hanesyddol hefyd feddu ar werthoedd cymdeithasol, sy'n ffynhonnell rhyngweithio cymdeithasol, natur unigryw neu gydlynid; gwerth economaidd, gan ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth; neu gall fod ganddynt werth ysbrydol, sy'n deillio o gredoau crefyddol neu ganfyddiadau modern o ysbryd lle.

Asesu arwyddocâd

Er mwyn nodi gwerthoedd treftadaeth ased, rhaid yn gyntaf ddeall ei hanes, adeiledd a nodweddion. Yna mae angen ystyried arwyddocâd cymharol y gwerthoedd gwahanol. Bydd angen cymharu gwerthoedd yr ased dan sylw ag eraill yn yr ardal, rhanbarth neu hyd yn oed wlad, yn dibynnu ar ei bwysigrwydd. Gan ddefnyddio arbenigwyr proffesiynol i wneud y gwaith cymharu hwn bydd modd sicrhau bod yr asesiad hwn yn un dilys.

Yn sgîl y broses hon caiff Datganiad Arwyddocâd ei lunio. Mae angen iddo fod yn asesiad cryno o'r asedau hanesyddol sy'n cael eu hystyried a'u gwerthoedd. Ni all unrhyw Ddatganiad Arwyddocâd byth fod yn gyflawn nac yn gwbl wrthrychol a bydd yn anochel yn adlewyrchu gwybodaeth a chanfyddiadau'r unigolyn neu grŵp o bobl sydd wedi ei greu. Fodd bynnag, rhaid iddo geisio mynegi'r gwerthoedd a nodwyd yn deg a pheidio â gadael i'r broses o ystyried unrhyw newidiadau a gynigir ddylanwadu arno. Bydd Datganiadau Arwyddocâd yn newid dros amser wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, neu wrth i ganfyddiadau o'r cyd-destunau hanesyddol, y mae'r ased yn perthyn iddynt, newid.

Dylai'r holl wybodaeth a thystiolaeth a gesglir wrth lunio Datganiad Arwyddocâd gynnwys cyfeiriadau a chael eu harchifo. Rhaid cynnwys crynodeb mewn unrhyw gynllun cadwraeth a gaiff ei lunio ar gyfer yr ased. Dylid adneuo copïau o'r archif a'r cynllun cadwraeth yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol cenedlaethol a/neu ranbarthol priodol.

Rheoli'r broses o newid ased hanesyddol

Mae'n anochel y bydd asedau hanesyddol yn newid. Dros amser, bydd grymoedd naturiol a defnydd rheolaidd yn arwain at erydu rhai o'r gwerthoedd tystiolaethol megis yr adeiledd. Gall atgyweirio ac adfer yr adeiledd a gwneud newidiadau i'w leoliad effeithio ar ei werth esthetig. Gall newid defnydd ychwanegu gwerth hanesyddol neu gymunedol newydd.

Er mwyn diogelu dyfodol hirdymor asedau hanesyddol, mae angen rheoli newid er mwyn sicrhau nad yw eu harwyddocâd yn lleihau o ganlyniad. Bydd cynnal dichonoldeb economaidd neu swyddogaethau cymdeithasol adeiladau hanesyddol yn eu helpu i oroesi ac yn annog pobl i'w cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Y ffordd orau o gynnal a chadw llawer o safleoedd archeolegol yw o dan gyfundrefnau ffermio neu goedwigaeth sy'n gefnogol iddynt. Mae angen i'r cyfundrefnau hyn barhau i fod yn ymarferol drwy adegau o newid economaidd a

hinsoddol neu gall y safleoedd ddirywio'n gyflym. Mae tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol yn systemau dynamig, sy'n cael budd o arferion rheoli parhaus a thraddodiadol fel arfer.

Fel rheol dynodir asedau hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol yn henebion cofrestredig neu'n adeiladau rhestredig. Mae ardaloedd cadwraeth, sy'n cynnwys nifer o asedau hanesyddol, hefyd yn cael eu gwarchod yn statudol. Yng Nghymru, caiff y safleoedd ar y *Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol* eu gwarchod drwy'r broses gynllunio. Ceir gweithdrefnau hirsefydledig sy'n ei gwneud yn bosibl cael caniatâd ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar yr asedau hyn. Mae perchenogion asedau hanesyddol hefyd yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd naturiol pan fyddant yn cynnig newid.

Bydd newid ased hanesyddol yn gofyn am wneud un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt fwy na thebyg:

- Gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd
- Gwaith atgyweirio
- Gwaith adnewyddu cyfnodol
- Ymyriadau archeolegol
- Gwaith adfer
- Gwaith newydd neu waith addasu
- Datblygiad galluogi

Nodir y ffordd y bydd Cadw yn ystyried cynigion ar gyfer y mathau hyn o waith yn erbyn yr egwyddorion cadwraeth yn yr adran nesaf sef 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith'. Nod yr adran hon yw rhoi canllaw defnyddiol i'r rheini sy'n paratoi prosiectau am ganiatâd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am 'Cyfuno gwaith cadwraeth â buddiannau eraill', gan nodi lle y gall fod angen derbyn achos o leihau neu golli gwerthoedd treftadaeth ar safle penodol er mwyn sicrhau y diwellir anghenion eraill. Yn yr achosion hyn gellir cael peth iawndal am y golled drwy sylweddoli gwerth tystiolaethol ar ffurf cofnodion ac ymchwiliadau archeolegol arbenigol.



Egwyddorion Cadwraeth ar Waith

Rhagair

Bydd yr adran hon yn rhoi arweiniad i Cadw wrth wneud penderfyniadau neu gynnig cyngor ar newidiadau i asedau hanesyddol arwyddocaol. Cydnabyddir y bydd y rhan fwyaf o'r cynigion a ddaw gerbron Cadw yn cynnwys mwy nag un math o newid i un neu fwy o asedau hanesyddol. Fodd bynnag, drwy nodi'r prosesau gwahanol isod, o waith cynnal a chadw rheolaidd a buddiol i'r cynigion mwyaf niweidiol a dadleuol o bosibl, mae Cadw wedi ceisio cyflwyno'r meini prawf a fydd yn sail i'w penderfyniadau. Rhoddir polisi a chanllawiau ffurfiol ym mhennod 6 *Polisi Cynllunio Cymru*, ac yng Nghylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig 60/96 — *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg a 61/96 — Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth*. Caiff y polisi a'r canllawiau hyn eu hadolygu'n gyfnodol.

Mae tensiwn rhwng cadwraeth a pholisïau cyhoeddus eraill neu fuddiannau preifat cyfreithlon fel arfer yn codi oherwydd angen canfyddedig i fod yn niweidiol i werthoedd treftadaeth yr asedau hanesyddol yr effeithir arnynt. Mewn achosion cymhleth, mae'n bwysig bod yn gytbwys a pheidio â rhagdybio y bydd gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol neu naturiol yn drech. Un o brif amcanion *Egwyddorion Cadwraeth* yw darparu fframwaith ar gyfer deialog, sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a chyd-barch, y bydd atebion cynaliadwy yn deillio ohono.

Mewn rhai achosion, caiff rhan o rai asedau hanesyddol neu'r cyfan eu colli. Mewn achosion o'r fath, bydd yn rhaid ymgymryd â gwaith cofnodi archeolegol trylwyr fel rhan o'r prosiect. Mewn achosion eraill, bydd datblygiadau galluogi arfaethedig yn bodloni'r profion a nodir ym mharagraff 49 isod. Yn yr achosion hyn, caiff rhai asedau hanesyddol eu cynnal a'u cadw, ond bydd gwerth asedau eraill yn lleihau.

Wrth baratoi cynigion datblygu sy'n effeithio ar asedau hanesyddol pwysig, anogir ymgeiswyr i ddatblygu Cynllun Cadwraeth. Yn ogystal, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu Datganiadau Dylunio a Mynediad sy'n disgrifio'r athroniaeth a fabwysiadwyd ganddynt a'r

Gardd Gloestr, Aberglasne, Sir Gaerfyrddin

*Adferwyd strwythur yr
ardd hon o ddechrau'r
ail ganrif ar bymtheg yn
sgîl ymchwil archeolegol
a hanesyddol helaeth.
(© Ymddiriedolaeth
Adfer Aberglasne).*

penderfyniadau a gymerwyd ganddynt wrth baratoi dyluniad y gwaith newydd a'r cyfleusterau maent yn bwriadu eu hadeiladu (gweler *TAN I 2: Dylunio*). Wrth baratoi'r dogfennau hyn, y gobaith yw y bydd *Egwyddorion Cadwraeth* yn cynorthwyo i ddatrys unrhyw achosion posibl o wrthdaro a allai godi o'r cynigion.

Gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd

- 1 Mae gwarchod asedau hanesyddol yn seiliedig ar waith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd, priodol ac wedi'i gynllunio.
- 2 Caiff gwerthoedd pob ased hanesyddol, o nodwedd unigol i ardal o dirwedd, eu colli'n gyflym os rhoddir y gorau i gyfundrefnau rheoli a chynnal a chadw hirsefydledig. Mae cyfundrefnau o'r fath yn aml yn gysylltiedig iawn â chynllun, swyddogaeth a gofal hanesyddol, ac maent yn dibynnu ar brosesau a deunyddiau traddodiadol. Gan fod y rhan fwyaf o gynefinoedd yng Nghymru wedi'u creu drwy arferion rheoli tir hirsefydledig, gall cynnal eu hecosystemau ddibynnu ar barhau â'r arferion hynny. Gall adfer hen gyfundrefn helpu i adfer gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol.
- 3 Dylai gwaith monitro rheolaidd lywio gwelliant parhaus mewn gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a nodi'r angen am waith atgyweirio neu adnewyddu cyfnodol ar gam cynnar. Os nad oes ateb parhaol i broblemau a nodwyd yn bosibl ar unwaith, dylid ymgymryd â gwaith dros dro i atal y problemau rhag gwaethygu. Dylai atebion dros dro fod yn effeithiol, yn amserol ac yn wrthdroadwy.

Gwaith atgyweirio

- 4 Mae gwaith atgyweirio sydd ei angen i gynnal gwerthoedd treftadaeth ased hanesyddol fel arfer yn ddymunol:
 - a. os oes digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o effeithiau'r cynigion ar arwyddocâd yr ased;
 - b. os gellir dangos, o brofiad, fod goblygiadau hirdymor y cynigion yn rhai da, neu os yw'r cynigion wedi'u cynllunio i beidio ag amharu ar atebion amgen yn y dyfodol;
 - c. os yw'r cynigion yn cael eu cynllunio i osgoi neu leihau niwed, os yw'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynnal gwerthoedd treftadaeth penodol yn gwrthdaro â'i gilydd.
- 5 Mae'n bwysig edrych y tu hwnt i'r angen i weithredu ar unwaith, er mwyn deall y rhesymau dros yr angen am waith atgyweirio a chynllunio at oblygiadau hirdymor newid a dirywiad anochel.

Er y dylid gwneud digon o waith i sicrhau gwaith atgyweirio sy'n parhau, fel arfer ni ddylid ond gwneud yr hyn sy'n rhesymol angenrheidiol i wneud elfennau sy'n dirywio yn gadarn a'i gwneud yn bosibl iddynt barhau i gyflawni'r swyddogaethau a fwriadwyd.

- 6 Argymhellir y dylid defnyddio deunyddiau neu dechnegau sy'n parhau am gyfnod y gellir ei ragweld o ystyried perfformiad yn y gorffennol, ac sy'n cyfateb yn agos i'r hyn sy'n cael ei atgyweirio neu ei adnewyddu. Maent yn tueddu i ddwyn risg isel o wneud niwed yn y dyfodol neu o fethu'n gynamserol. Yn y lle cyntaf, mae'r gwaith atgyweirio hwn yn aml yn weledol amlwg ac yn hawdd i'w wrthdroi. Mewn cyferbyniad, mae'r effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â defnyddio deunyddiau neu dechnegau arloesol nad ydynt wedi'u profi rhyw lawer yn llawer llai sicr.

Nid oedd pob deunydd na thechneg ar adeilad hanesyddol yn parhau — mae craffau haearn mewn gwaith maen neu ffenestri a wnaed o ddur heb ei galfaneiddio, er enghraifft, yn crydu. Mae rhai methiannau strwythurol sy'n digwydd yn araf bach yn ganlyniad anochel i'r dulliau adeiladu gwreiddiol. Pan fo methiant, mae sefydlogi'r strwythur yn dibynnu ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y broblem, nid gadael i ddiffygion cynhenid barhau.

- 7 Gall y defnydd o ddeunyddiau a thechnegau gwreiddiol weithiau ddinistrio mwy o'r adeiledd gwreiddiol, ac unrhyw addurniadau sydd arno, na chyflwyno deunyddiau modern sy'n atgyfnerthu neu'n diogelu'n arwynebol. Er enghraifft, gall y rhain gynnig yr ateb gorau o ran cadwraeth os ydynt yn fodd i warchod mwy o'r adeiledd gwreiddiol pwysig.

Mewn tirweddau hanesyddol, efallai y bydd angen defnyddio rhywogaethau amgen wrth blannu er mwyn gwrthsefyll clefydau neu effeithiau newid yn yr hinsawdd. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol deall holl werthoedd treftadaeth yr elfennau dan sylw, ac ystyried yr amcanion cadwraeth tymor hwy, yn ogystal â'r rhai uniongyrchol.

- 8 Weithiau, gall y camau gweithredu sydd eu hangen i gynnal neu atgyfnerthu un gwerth treftadaeth fod yn anghydnaws â'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynnal gwerthoedd eraill, er enghraifft lle byddai gwaith atgyweirio strwythurol o dan adeilad yn achosi difrod archeolegol annerbyniol. Dylai dealltwriaeth o'r gwerthoedd treftadaeth sy'n gysylltiedig ag ased hanesyddol, y gydberthynas rhyngddynt a'u pwysigrwydd cymharol arwain at bennu blaenoriaethau ar gyfer dygymod â thensiynau o'r fath neu eu cydbwyso. Er y dylid gwneud pob ymdrech resymol i osgoi neu leihau gwrthdaro posibl, mae atebion cynlluniedig sy'n gofyn am waith cynnal a chadw dwys yn debygol o fod yn anodd eu cynnal.

Gwaith adnewyddu cyfnodol

- 9 Gellir cyfiawnhau gwaith adnewyddu ar elfennau ased hanesyddol yn gyfnodol os byddai methiant i wneud hynny yn arwain at golli mwy o adeiledd hanesyddol a gwerthoedd treftadaeth yr ased hwnnw.
- 10 Mae gwaith adnewyddu cyfnodol yn wahanol i waith cynnal a chadw yn yr ystyr ei fod yn digwydd yn ystod cylch hwy, ei fod yn fwy sylweddol ei natur ac, yn aml yn cael mwy o effaith weledol. Mae'r mater hwn yn codi gydag adeiladau hanesyddol a pharciau a gerddi hanesyddol gan amlaf. Mae'n golygu colli rhai gwerthoedd treftadaeth dros dro, megis gwerth esthetig hen do, neu werth coeden sy'n nychu fel cynefin i anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Fodd bynnag, mae'r gwerthoedd hyn yn debygol o ailymddangos yn ystod y cylch nesaf o ddefnydd, ar yr amod bod yr elfen newydd yn gydnaws yn ffisegol ac yn weledol ('tebyg at ei debyg' fel arfer i'r graddau ei fod yn gynaliadwy). Ar y llaw arall, os nad ymgwymerir â gwaith adnewyddu cyfnodol bydd hynny fel arfer yn arwain at golli mwy o adeiledd a gwerthoedd treftadaeth.
- 11 Efallai y bydd angen rhaglen o gofnodi archeolegol neu adeiladu i gyd-fynd â'r gwaith adnewyddu cyfnodol. Er enghraifft, wrth osod to newydd efallai y datgelir sut y cafodd ei osod, a gall gwaith ailblastro neu ailrendro ar wal ddatgelu tystiolaeth bwysig o gyfnodau cynharach yn hanes yr adeilad oddi tani.
- 12 Bydd gwaith adnewyddu cyfnodol yn cael ei gyfiawnhau fel arfer oherwydd bod yr adeiledd dan sylw yn methu â chyflawni'r swyddogaethau a fwriadwyd drwy ymyrraeth fwy cyfyngedig. Hefyd, yn achos tirweddau pwysig, ni all plannu olynol gyflawni'r amcan hwn mewn ffordd lai eithafol. Gan amlaf gellir anwybyddu niwed i werthoedd fel arfer a fydd yn cael ei unioni yn ystod y cylch nesaf, ond ni ellir anwybyddu niwed parhaol posibl wrth wneud y penderfyniad.

Ymyriadau archeolegol

- 13 Mae ymyriadau archeolegol sy'n effeithio ar ased hanesyddol ac sy'n golygu colli tystiolaeth berthnasol ond yn dderbyniol fel arfer:
 - a. os nad yw gwarchod *in situ* yn rhesymol ymarferol;
 - b. os dangosir
 - nad oes modd cael y wybodaeth newydd bosibl gan ddefnyddio technegau nad ydynt yn ddinistriol;
 - ei bod yn annhebygol y câi'r wybodaeth newydd bosibl ei chyflawni mewn man arall y mae ei ddinistrio yn anochel;
 - bod y wybodaeth newydd bosibl yn sicr yn bwysicach na cholli'r adnodd sylfaenol.

- c. os yw'n ofynnol er mwyn gwerthuso niwed posibl datblygiad a gynigir.
- Os yw'n dderbyniol, mae ymyriad archeolegol yn gofyn am:
 - ch. tîm medrus, sy'n meddu ar yr adnoddau i weithredu cynllun prosiect sy'n seiliedig ar amcanion ymchwil penodol;
 - d. cofnod awdurdodol;
 - dd. trefniadau ariannu ar gyfer gwarchod ac adneuo archif y safle yn gyhoeddus, ac ar gyfer dadansoddi a lledaenu'r canlyniadau yn briodol o fewn amserlen benodedig;
 - e. strategaeth i sicrhau nad yw'r gwaith yn amharu ar elfennau na gwerthoedd eraill y lle, ar y pryd nac wedyn, gan gynnwys gwarchod unrhyw elfennau sy'n agored i'r tywydd.

- 14 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig cofnod unigryw o weithgarwch dynol yn y gorffennol, ond mae'n wahanol i archifau ysgrifenedig yn yr ystyr mai dim ond drwy ddinistrio'r cofnod sylfaenol y gellir 'darllen' rhai rhannau ohono. Mae'r dull gweithredu hwn yn berthnasol i gloddio dyddodion archeolegol claddedig, ond gall fod yn berthnasol i'r ymchwiliad ffisegol i strwythurau. Mae'n ymwneud â lefel o ymyrraeth sy'n mynd y tu hwnt i waith gwerthuso ac ymchwilio wedi'i dargedu a all fod yn angenrheidiol i lywio a chyfiawnhau penderfyniadau rheoli cadwraeth.
- 15 Gyda datblygiad parhaus technegau ymchwilio, mae profiad wedi dangos y bydd yn bosibl cael mwy o ddata o waith cloddio a mathau eraill o ymyriadau yn y dyfodol nag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Bydd hyn yn gofyn am ddefnyddio adnodd cyfyngedig yn ofalus, ac mae'n rhaid osgoi colli cyfanrwydd asedau hanesyddol y safle yr ymchwilir iddo. Fodd bynnag, ni ellir yn rhesymol beidio ag ymgymryd ag ymchwil lle y bydd yn gwella ein gwybodaeth am arwyddocâd y safle ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o archeoleg a hanes Cymru.
- 16 Mae'n rhaid i ymyriadau archeolegol gael eu cyfiawnhau'n bennaf drwy ystyried y wybodaeth newydd y gellir ei chael o gymharu â'r effaith ar yr adnodd archeolegol ac, yn benodol, ar y man neu'r math o safle dan sylw. Dylid ystyried blaenoriaethau fframwaith ymchwil perthnasol, sefydledig. Dylid sicrhau bob amser y gweithredir yr ymyriad lleiaf posibl sydd ei angen i gyflawni amcanion yr ymchwil, gan ddefnyddio technegau nad ydynt yn ddinistriol i'r eithaf. Mae angen i'r ymyriad fod yn ddigon helaeth i sicrhau y gellir gwireddu potensial llawn yr ymchwil i'r hyn a fydd wrth reswm yn cael ei ddinistrio yn ystod y broses.

Gwaith adfer

- 17 Bydd adfer ased hanesyddol fel arfer ond yn dderbyniol:
- os yw gwerth treftadaeth gwell yr elfennau a fyddai'n cael eu hadfer yn bwysicach o lawer na gwerth yr elfennau a fyddai'n cael eu colli;
 - os gellir cyfiawnhau'r gwaith arfaethedig drwy dystiolaeth gymhellol o ddatblygiad y man hwnnw, ac os y'i gwneir yn unol â'r dystiolaeth honno;
 - os yw'r ffurf bresennol ar yr ased yn deillio o ddatfeilio cynyddol neu gam-reoli yn hytrach na digwyddiad hanesyddol pwysig;
 - os yw'r gwaith arfaethedig yn parchu ffurfiau blaenorol ar y lle hwnnw, ac wedi'i gynllunio i sicrhau na fydd yn amharu ar atebion amgen yn y dyfodol;
 - os ystyrir bod goblygiadau'r gwaith adfer arfaethedig o ran cynnal a chadw yn gynaliadwy.
- 18 Mae gwaith adfer yn golygu ail-greu rhannau coll, ymddangosiad neu swyddogaeth ased hanesyddol yn seiliedig ar y dystiolaeth gryfaf sydd ar gael o'i adeiladwaith a'i gynllun. Hyd yn oed wrth adfer adeiledd sydd wedi dymchwel neu sydd wedi cael ei symud, bydd yr hyn a gynhyrchir yn newydd a bydd yn ychwanegu haen newydd o hanes i'r adeiledd. Ni ellir ond cyfiawnhau gwaith adfer lle nad yw'n lleihau gwerth yr adeiledd sy'n goroesi ac mae'n gwella ac yn cynnal yr ased hwnnw.
- 19 Gall gwaith adfer beryglu dilysrwydd ased hanesyddol yn hawdd. Nid oes fawr o wahaniaeth rhwng gwaith adfer a gwaith newydd. Pan fydd gwaith adfer yn troi'n ddamcaniaethol neu'n ymgais i ail-greu ased hanesyddol yn gyffredinol, dylai'r cynigion gael eu trin fel gwaith newydd a'u barnu yn ôl y meini prawf a roddir yn yr adran isod.
- 20 Mae'n hynod bwysig bod gwaith adfer yn cael ei ategu gan waith cofnodi archeolegol manwl. Caiff y canlyniadau a gynhyrchir eu hintegreiddio â'r dadansoddiad cychwynnol o'r dystiolaeth a gasglwyd i gyfiawnhau'r gwaith adfer a'u defnyddio i'w ddiweddarau. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, caiff copïau o'r canlyniadau eu hychwanegu at Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth Archeolegol briodol yng Nghymru.
- 'Mae gwerth treftadaeth gwell yr elfennau a fyddai'n cael eu hadfer yn bwysicach o lawer na gwerth yr elfennau a fyddai'n cael eu colli.'*
- 21 Bydd unrhyw brosiect adfer wrth reswm yn dileu neu'n cuddio rhan o'r cofnod o newidiadau blaenorol i'r safle hwnnw. Bydd yn dileu dystiolaeth o'r newidiadau hynny a gall o bosibl leihau ei werth hanesyddol ac esthetig. Er mwyn gwrthbwysu'r effeithiau negyddol hyn, mae'n rhaid i waith adfer wella gwerthoedd treftadaeth eraill i raddau mwy. Gall ddatgelu cyfnod cynharach neu bwysicach yn natblygiad y safle,

fel y nodwyd yn y Datganiad Arwyddocâd, a gwella dealltwriaeth ohono. Gall wella'r lleoliad yn sylweddol, a thrwy hynny fwynhad o'r lle. Yn olaf, gall ei gwneud yn bosibl i adfer hen swyddogaeth, gan ddod â bywyd newydd i'r safle hwnnw. Lle mae arwyddocâd asedau hanesyddol yn deillio o ganrifoedd o newid, mae gwaith adfer ar gyfnod cynharach o'u datblygiad yn annhebygol iawn o fodloni'r maen prawf hwn.

'Gellir cyfiawnhau'r gwaith arfaethedig drwy dystiolaeth gymhellol o ddatblygiad y safle hwnnw, ac fe'i gwneir yn unol â'r dystiolaeth honno'.

- 22 Dylai dystiolaeth o ddatblygiad asedau hanesyddol y safle hwnnw, ac yn enwedig y cyfnod y bwriedir ei adfer iddo, ddod o bob ffynhonnell sydd ar gael. Mae hyn yn gofyn am astudiaeth o'r adeiledd ei hun (cofnod sylfaenol o'i ddatblygiad), unrhyw ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r broses gynllunio ac adeiladu wreiddiol, a ffynonellau archifol dilynol, gan gynnwys cofnodion o ymyriadau blaenorol. Dylai canlyniadau'r ymchwiliad hon a'r casgliadau y deuir iddynt yn rhesymegol gael eu nodi'n glir.

'Mae'r ffurf bresennol ar yr ased yn deillio o ddadfeilio cynyddol neu gam-reoli yn hytrach na digwyddiad hanesyddol pwysig'.

- 23 Os oedd adeilad neu strwythur yn adfail neu os oedd ei gymeriad wedi cael ei newid yn sylweddol o ganlyniad i ddigwyddiad hanesyddol pwysig, bydd ei gyflwr dilynol yn cyfrannu at ei arwyddocâd: er enghraifft, tai mynachaid a gollodd eu toeon ar adeg y Diddymiad, neu gestyll a gafodd eu difrodi yn y Rhyfel Cartref.

Yn sgîl digwyddiadau o'r fath, aeth rhai safleoedd yn adfail, cafodd rhai eu dymchwel yn llwyr, a chafodd eraill eu hatgyweirio a'u haddasu at ddibenion newydd. Byddai ymgais i adfer yr asedau hanesyddol eithriadol hynny sydd wedi goroesi ar ffurf adfeilion yn gwrthdaro â'u rôl fel atgof gweledol ac emosiynol cryf o ddigwyddiadau hanesyddol pwysig. Gall adfeilion — rhai gwirioneddol neu ffug — chwarae rhan fawr mewn tirweddau dynodedig, diffinio cymeriad lleoedd neu gael eu dathlu mewn gwaith celf. Eto i gyd, gellir cyfiawnhau eu hadfer neu eu haddasu at ddefnydd arall os mai diflannu neu ddirywio mewn ffordd annerbyniol a wnânt fel arall.

- 24 Gall ymateb y cyhoedd i ddigwyddiadau cyfoes dramatig arwain at bwysau i adfer strwythur wedi'i ddifrodi, er enghraifft er mwyn iddo ddod yn gofeb neu fod yn rhan o waith adfywio cymdeithasol ac economaidd yn y gymuned. Mae angen i unrhyw benderfyniadau ynghylch graddau'r gwaith adfer ystyried cynaliadwyedd y canlyniad a ddymunir.
- 25 Mewn gwrthgyferbyniad, ni chaiff esgeuluso difeddwl na dirywiad, gadael yn wag, addasu'n drwsogl at ddefnydd dros dro, nac

amgylchiadau tebyg, eu hystyried fel arfer yn ddigwyddiadau hanesyddol pwysig. Ni fyddai cynigion i adfer y difrod canlyniadol a wnaed i'r rhannau hynny o adeiladau neu asedau hanesyddol eraill, hyd yn oed ar ôl cyfnod hir, yn cael eu gwrthod fel arfer.

‘Mae’r gwaith arfaethedig yn parchu ffurfiau blaenorol ar yr ased hanesyddol hwnnw, ac wedi’i gynllunio i sicrhau na fydd yn amharu ar atebion amgen yn y dyfodol’.

- 26 Po fwyaf radical y gwaith adfer, y mwyaf tebygol ydyw y bydd elfen o anghysondeb. Gall hyn fod yn wir am y safle ei hun a'i leoliad.

‘Ystyrir bod goblygiadau’r gwaith adfer arfaethedig o ran cynnal a chadw yn gynaliadwy’.

- 27 Mae'n hanfodol ystyried goblygiadau hirdymor gwaith adfer arfaethedig o ran hyfywedd a chynaliadwyedd. Er enghraifft, os cafodd ased hanesyddol, neu ran ohono, ei addasu'n bennaf er mwyn lleihau costau cynnal a chadw, byddai mynd ati i wneud gwaith adfer heb ystyried yr adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen i wneud y gwaith cynnal a chadw yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol. Mae adfer gerddi addurnol cymhleth (parterres) mewn gerddi hanesyddol yn enghraifft o hyn.

Gwaith newydd a gwaith addasu

- 28 Bydd gwaith newydd neu waith addasu ar ased hanesyddol ond yn dderbyniol fel arfer:
- os gellir cyfiawnhau bod angen gwneud y gwaith yn llawn;
 - os oes digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o effeithiau'r cynnig ar arwyddocâd yr ased;
 - os na fyddai'r cynnig yn amharu ar werthoedd yr ased hwnnw mewn ffordd berthnasol, gwerthoedd a fyddai'n cael eu hatgyfnerthu neu eu datgelu ymhellach, lle y bo'n briodol;
 - os yw ansawdd y dyluniad a'r ffordd y'i rhoddir ar waith yn ychwanegu gwerth at yr ased presennol;
 - os gellir dangos, o brofiad, fod goblygiadau hirdymor y cynigion yn rhai da, eu bod yn wrthdroadwy ar y cyfan neu eu bod wedi'u cynllunio i beidio ag amharu ar atebion amgen yn y dyfodol.
- 29 Nid yw diddordeb y cyhoedd mewn cynnal a chadw gwerthoedd treftadaeth yn gwrthdaro â gwaith newydd. Mae gwaith dylunio ac adeiladu arloesol yn bwysig o ran cynnal gwerthoedd diwylliannol, ond ni ddylid cyflawni hynny ar draul asedau o werth sefydledig. Gall gwaith newydd hefyd helpu i gynnal a gwella asedau hanesyddol eraill drwy adfywio ardal.

‘Ni fyddai’r cynnig yn amharu ar werthoedd yr ased hwnnw mewn ffordd berthnasol, gwerthoedd a fyddai’n cael eu hatgyfnerthu neu eu datgelu ymhellach, lle y bo’n briodol’.

- 30 Lle mae gwerthoedd treftadaeth amrywiol a chadarn yn gysylltiedig â safle, cyfyngedig fydd y cyfle i newid o bosibl. Fodd bynnag, mae rhai safleoedd mor sensitif fel nad ydynt hwy, na’u lleoliadau, yn cynnig unrhyw gyfleoedd i ychwanegu gwaith newydd.

‘Mae ansawdd y dyluniad a’r ffordd y’i rhoddir ar waith yn ychwanegu gwerth at yr ased presennol’.

- 31 Mae’r angen i waith newydd fod o safon yn berthnasol ar bob lefel, o ymyriadau bach mewn ystafell hanesyddol, i adeiladau neu ddatblygiadau newydd mawr. Mae angen rhoi’r un ystyriaeth i newidiadau bach ag a roddir i newidiadau mawr, gan y gall effaith gronol newidiadau bach fod yn fawr.
- 32 Wrth gyfiawnhau bod angen ymgymryd â gwaith newydd ar ased hanesyddol, mae’n rhaid bod dealltwriaeth glir ac ystyrlon o’r gydberthynas rhwng pob rhan a’r cyfanwaith, yn ogystal â lleoliad y gwaith newydd.
- 33 Mae sicrhau gwaith o safon bob amser yn dibynnu ar fedr y dylunydd. Mae’r dewis o ddeunyddiau priodol a chreffftwaith wrth eu defnyddio yn hollbwysig i barhad y gwaith ac i sicrhau cymeriad penodol asedau hanesyddol.
- 34 Mae asesu ansawdd gwaith dylunio yn oddrychol. Mae’n ofyniad statudol ar ymgeiswyr i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Ar gyfer cynigion mawr, neu rai sensitif iawn, gellir ceisio barn Comisiwn Dylunio Cymru.

‘Gellir dangos, o brofiad, fod goblygiadau hirdymor y cynigion yn rhai da, neu fod y cynigion wedi’u cynllunio i beidio ag amharu ar atebion amgen yn y dyfodol’.

- 35 Lle mae cynigion ar gyfer gwaith newydd yn cynnwys rhywfaint o ymyrryd yn adeiledd presennol ased hanesyddol, bydd ‘rhagdybiaeth o blaid diogelu’ (ddim yn gwneud niwed). Os yw’r gwaith newydd wedi’i gynllunio i fod yn wrthdroadwy, yna ni fydd yn effeithio ar atebion amgen yn y dyfodol.
- 36 Gall dilysrwydd a chyfanrwydd ased hanesyddol gael eu peryglu os collir gormod o’r adeiledd a etifeddwyd. Ar yr eithaf, mae’n rhaid ystyried cynnig i gadw tu blaen adeilad hanesyddol yn unig a’i gysylltu â strwythur

modern yng ngoleuni asesiad o werthoedd presennol yr adeilad, yn ei gyfanrwydd a fesul rhan. Bydd y gydberthynas rhwng y tu blaen a'r strwythurau presennol ac arfaethedig y tu ôl iddo yn hollbwysig i'r penderfyniad, ond anaml y bydd cadw'r tu blaen yn unig yn dderbyniol.

- 37 Yn dilyn asesiad risg o'r adolygiad o ddyletswyddau statudol, efallai y bydd rhai newidiadau yn cael eu cynnig i leihau'r risg o drychineb i ased hanesyddol neu ganlyniadau trychineb o'r fath. Gall y rhain ddeillio o'r angen am well camau diogelu rhag tân neu lwybrau dianc, amddiffynfeydd rhag llifogydd neu ddiogelwch rhag ymosodiad. Dylai pob opsiwn gael ei werthuso fel y gellir taro cydbwysedd rhwng y posibilrwydd y byddai niwed mawr i werthoedd treftadaeth hebddynt, a'r sicrwydd y byddai niwed llai, ond perthnasol yn aml, wedi'i achosi gan y gwaith ei hun. Efallai y bydd angen gwaith hefyd i wella mynediad ffisegol a darparu amgylchedd mwy diogel. Gall y gwaith hwn amharu rhywfaint ar werthoedd tystiolaethol, hanesyddol ac esthetig yr ased hanesyddol, ond gall hyn gael ei wrthbwysu gan y cynnydd mewn gwerthoedd cymunedol sy'n deillio o ddefnyddio'r ased yn barhaus.
- 38 Fel yn achos gwaith atgyweirio, mae'r defnydd o ddeunyddiau a thechnegau mewn gwaith newydd y gwelwyd drwy brofiad eu bod yn gydnaws â'r adeiledd presennol, gan gynnwys deunydd wedi'i ailgylchu o ffynhonnell briodol, yn tueddu i ddwyn risg isel o fethiant. Mae gwaith nad yw'n amharu fawr ddim ar yr adeiledd presennol neu sy'n annibynnol arno, yn cynnig mwy o gyfle i arloesi a gwrthdroi.

Cyfuno gwaith cadwraeth â buddiannau eraill

- 39 Bydd newidiadau a fyddai'n amharu ar werthoedd treftadaeth ased hanesyddol yn annerbyniol:
- oni ellir dangos bod y newidiadau yn angenrheidiol er mwyn gwneud yr ased hwnnw yn gynaliadwy neu i gyflawni amcan polisi cyhoeddus neu ddiwallu angen sy'n drech na phob peth arall;
 - oni bai bod dim modd rhesymol ymarferol arall i wneud hynny heb wneud niwed;
 - oni bai bod y niwed wedi cael ei leihau i'r eithaf yn gyson â chyflawni'r amcan;
 - oni ddangoswyd bod y budd a ragwelir yn fwy na'r niwed i werthoedd yr ased, gan ystyried
 - ei arwyddocâd cymharol;
 - yr effaith ar yr arwyddocâd hwnnw;
 - y manteision i'r ased ei hun a/neu'r gymuned ehangach neu gymdeithas gyfan.

- 40 Mae cynaliadwyedd yn gofyn am integreiddio buddiannau treftadaeth a buddiannau amgylcheddol eraill ag amcanion economaidd a chymdeithasol ar bob lefel o gynllunio strategol. Mae'n hanfodol bod y rheini sy'n hyrwyddo'r angen am newid yn ystyried ac yn cymharu effaith ystod o opsiynau i gyflawni eu hamcanion ar bwysigrwydd asedau hanesyddol. Dylai hyn arwain at ddewis opsiwn sydd naill ai'n dileu'r posibilrwydd o niwed, neu (cyn belled ag y bo modd), yn ei leihau. Rôl Cadw a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes treftadaeth fydd cyflwyno'r achos llawn a chadarn dros gadw'r asedau hanesyddol.
- 41 Dylai'r gwaith o gyrchu deunyddiau cynaliadwy, ac arferion amgylcheddol da, lywio unrhyw waith newydd, ond nid i'r graddau y bydd yn amharu ar werthoedd treftadaeth yr ased.
- 42 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy (*TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy*). Gall hyn arwain at heriau penodol, er enghraifft, wrth addasu adeiladau hanesyddol a gosod cyfarpar cynhyrchu mewn tirweddau hanesyddol. Mae Cadw wedi cyhoeddi canllaw ar y pwnc hwn — *Ynni adnewyddadwy a'ch adeilad hanesyddol. Gosod systemau micro-gynhyrchu: Canllaw arfer gorau*. Mae angen cydnabod cynaliadwyedd cynhenid adeiladau hanesyddol (o gymharu ag adeiladau newydd) hefyd. Er enghraifft, mae'r ynni a ddefnyddir i greu adeilad newydd, waeth pa mor ynni effeithlon ydyw, yn golygu y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i wneud iawn am golli unrhyw adeilad hanesyddol y gall fod yn ei ddisodli.

'Arwyddocâd cymharol'.

- 43 Dylai arwyddocâd ased hanesyddol i gymdeithas lywio faint o bwys a roddir ar gynnal ei werthoedd treftadaeth.
- 44 Gan fod dynodiad statudol yn ddangosydd clir o arwyddocâd ased hanesyddol, gall y ffaith ei fod wedi'i ddynodi ynddi'i hun chwarae rhan hollbwysig o ran llywio newidiadau strategol posibl. Fodd bynnag, nid yw diffyg dynodiad yn golygu, o reidrwydd, nad yw ased hanesyddol yn arwyddocaol. Ni ddylid ystyried y pwys a roddir ar werthoedd treftadaeth o'u cymharu â buddiannau cyhoeddus eraill nes bod y gwerthoedd treftadaeth hynny wedi cael eu gwerthuso'n gywir; eu hasesu yn erbyn y meini prawf cyfredol ac, os ydynt yn eu bodloni, eu diogelu drwy ddynodiad.

'Effaith ar arwyddocâd'.

- 45 Dylai'r asesiad o niwed a allai gael ei wneud i ased hanesyddol ystyried effaith unrhyw gynnig ar ei werthoedd treftadaeth, a goblygiadau tebygol gwneud dim. Yn achos adeilad hanesyddol gwag sydd mewn

cyflwr gwael, er enghraifft, a ddylid gwrthod cynnig ymarferol ond un sy'n achosi ychydig o niwed yn y gobaith y bydd cynllun gwell neu lai niweidiol yn cael ei gyflwyno cyn i'r lle fynd â'i ben iddo yn gyfan gwbl? O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r hyn a wyddys neu a ragwelir o ran y gyfradd ddirywio yn ffactor hollbwysig, a rhaid wrth ddadansoddiad rhesymegol. Nid yw'r ffaith bod lle wedi cael ei esgeuluso ynddi'i hun yn rheswm dros gytuno ar gynllun na fyddai fel arall yn dderbyniol. Mae angen asesu effaith y cynigion a gyflwynir drwy gymharu arwyddocâd yr asedau hanesyddol yr effeithir arnynt yn eu cyflwr presennol ac ar ôl cwblhau'r gwaith. Dylid ystyried a oes cymhorthdal ar gael yn lle cynnig a all achosi niwed, neu i leihau ei effaith.

'Manteision i'r safle'.

- 46 Gall mân newidiadau, er enghraifft i gyflawni'r dyletswyddau i wneud 'addasiadau rhesymol' o dan ddeddfwriaeth anabled neu ddiogelwch tân, neu i addasu yn sgîl newid litwrgi mewn eglwys, wneud y safle yn addas i'w ddefnyddio. Gall hyn, yn ei dro, wneud y safle'n gynaliadwy drwy gynnal ei werth ar y farchnad, neu alluogi cymuned i barhau i'w ddefnyddio. Dylai newidiadau sy'n achosi niwed i werthoedd treftadaeth y safle fod yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen er mwyn iddo barhau i gael ei ddefnyddio. Gall gwaith dylunio da leihau eu heffeithiau.

'Manteision i'r gymuned ehangach neu gymdeithas gyfan'.

- 47 Wrth ystyried difrifoldeb yr effeithiau posibl ar ased hanesyddol, dylid bob amser arfer cymesuredd a rhesymoldeb. Rhaid pwyso a mesur colli rhywbeth o werth hanesyddol am byth a manteision arfaethedig y datblygiad. Bydd pob parti dan sylw yn llunio barn, ac yn dewis rhoi gwahanol bwys ar werthoedd penodol. Os na ellir cael cytundeb, gall arwain at ymchwiliad cyhoeddus, a phenderfyniad gwleidyddol yn y pen draw.
- 48 Gall adfywio treftadaeth drwy aildefnyddio neu ddatblygu adeiladau hanesyddol neu asedau hanesyddol eraill sicrhau cynaliadwyedd cymuned leol. Mae angen profi manteision posibl cynigion adfywio o'r fath yn erbyn yr egwyddorion cadwraeth.

Datblygiad galluogi

- 49 Ni fydd datblygiad galluogi a fyddai'n sicrhau dyfodol ased hanesyddol pwysig, ond a fyddai'n mynd yn groes i amcanion polisi cynllunio, yn dderbyniol fel arfer:
- oni bai bod dim niwed sylweddol i werthoedd treftadaeth yr ased hanesyddol na'i leoliad;
 - oni bai ei fod yn osgoi rhannu trefniadau rheoli'r ased hanesyddol mewn ffordd andwyol;

- c. oni fydd yn sicrhau dyfodol hirdymor yr ased hanesyddol a, lle y bo'n briodol, yn sicrhau parhad ei ddefnydd at ddiben cydnaws;
- ch. oni bai ei bod yn angenrheidiol i ddatrys problemau sy'n codi o anghenion cynhenid yr ased hanesyddol, yn hytrach nag amgylchiadau'r perchennog presennol, neu'r pris prynu a dalwyd;
- d. oni bai bod dim cymhorthdal digonol ar gael o unrhyw ffynhonnell arall;
- dd. oni ddangosir mai'r datblygiad galluogi a gynigir yw'r datblygiad lleiaf sydd ei angen i sicrhau dyfodol yr ased hanesyddol, a'i fod yn achosi cyn lleied o niwed â phosibl i fuddiannau cyhoeddus eraill;
- e. oni bai bod budd cyhoeddus sicrhau dyfodol yr ased hanesyddol drwy ddatblygiad galluogi o'r fath yn drech nag anfanteision torri polisiau cyhoeddus eraill.

- 50 Datblygiad a fyddai'n cynnig buddiannau sylweddol o ran treftadaeth, ond a fyddai'n groes i amcanion eraill polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol neu leol yw datblygiad galluogi. O dan egwyddor cynllunio sefydledig gall datblygiad o'r fath fod yn briodol os yw budd cyhoeddus achub, gwella neu hyd yn oed waddoli ased hanesyddol pwysig yn drech na'r niwed i fuddiannau perthnasol eraill. Mae'n rhaid i ddatblygiad galluogi bob amser fod yn gymesur â'r budd cyhoeddus a gynigia.
- 51 Os penderfyna awdurdod lleol fod cynllun datblygiad galluogi yn bodloni'r holl feini prawf a nodir uchod, dylid rhoi caniatâd cynllunio:
- a. dim ond os bydd effaith y datblygiad wedi'i nodi'n fanwl o'r cychwyn, fel arfer drwy roi caniatâd cynllunio llawn yn hytrach na chaniatâd cynllunio amlinellol;
 - b. dim ond os yw'r amcan treftadaeth sydd i'w gyflawni yn gysylltiedig yn sicr ac yn orfodol â'r datblygiad galluogi;
 - c. dim ond os yw'r lle dan sylw yn cael ei atgyweirio yn ôl safon y cytunwyd arni, neu os yw'r arian i wneud hynny'n cael ei ddarparu, mor gynnar â phosibl yn ystod y datblygiad galluogi, yn ddelfrydol o'r cychwyn ac yn sicr cyn cwblhau neu feddiannu'r prosiect;
 - ch. dim ond os yw'r awdurdod cynllunio yn monitro'r ffordd y'i gweithredir yn fanwl gan weithredu'n ddi-oed os oes angen i sicrhau y bodlonir rhwymedigaethau.
- 52 Drwy gynnwys yr adran hon, mae Cadw yn cymeradwyo *Enabling Development and the Conservation of Significant Places* English Heritage (Medi 2008).



Diffiniadau

Mae'r adran hon yn cynnwys geiriau a ddefnyddir mewn ystyr benodol neu dechnegol.

Adeiledd

Y sylweddau sy'n gwneud ased hanesyddol, gan gynnwys yr olion ffisegol sy'n sefyll a'r dyddodion archeolegol claddedig.

Amgylchedd hanesyddol

Pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o ryngweithio rhwng pobl a lleoedd dros amser; gan gynnwys holl olion gweithgarwch dyn yn y gorffennol sydd wedi goroesi, boed yn weladwy, yn gladdedig neu o dan ddŵr, ac wedi'u plannu neu wedi'u rheoli'n fwriadol.

Ardal gadwraeth

Ardal o ddiddordeb pensaeriol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol bod ei chymeriad neu ei hymddangosiad yn cael eu diogelu neu eu gwella, a ddynodir o dan a69 bellach o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Arwyddocâd [o fewn yr amgylchedd hanesyddol]

Yr holl werthoedd treftadaeth ddiwylliannol, yn aml wedi'u nodi mewn Datganiad Arwyddocâd.

Ased hanesyddol

Elfen o'r amgylchedd hanesyddol y gellir ei hadnabod. Gall fod yn safle archeolegol, adeilad hanesyddol neu ran o dirwedd hanesyddol, neu'n gyfuniad ohonynt. Fel arfer, caiff asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol eu dynodi.

Barn ar sail gwerth

Asesiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr unigolyn neu'r grŵp sy'n rhoi eu barn.

Mae gwaith o reoli bryngaer Dinas Dinlle, Gwynedd, yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae ymyl ei chlogwyn yn dioddef o erydiad arfordirol sy'n golygu bod tystiolaeth archeolegol hollbwysig yn cael ei cholli (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Cadwraeth

Y broses o reoli newid i ased hanesyddol yn ei leoliad yn y ffordd orau i gynnal ei werthoedd treftadaeth, tra'n cydnabod cyfleoedd i ddatgelu neu atgyfnerthu'r gwerthoedd hynny i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Set ddata gyhoeddus ar ffurf mapiau. Prif fwriad y cofnod yw llywio'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol. Yng Nghymru, fe'i cynhelir gan y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol.

Cyfanrwydd

Cyfanrwydd, gonestrwydd.

Cyhoeddus

Yn ymwneud â phobl yn gyffredinol, wedi'i wneud dros bobl, yn gweithredu ar ran pobl ac ati.

Cymesuredd

Bod yn gymesur â rhywbeth arall o ran maint, graddfa neu o ran nodweddion mesuradwy eraill.

Cynaliadwy

Yn gallu diwallu anghenion heddiw heb effeithio ar y gallu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Cynllun Cadwraeth

Dogfen sy'n nodi arwyddocâd safle, a sut y caiff ei gynnal drwy ddefnydd, addasu, atgyweirio, rheoli neu ddatblygu yn y dyfodol.

Cynnal

Cynnal a chadw, meithrin a chadarnhau dilysrwydd.

Datganiad Dylunio a Mynediad

Dogfen sy'n cyd-fynd â phob cais cynllunio a phob cais am ganiatâd adeilad rhestredig, y nodir ei chynnwys yn *TAN 12: Dylunio*, atodiad 1.

Dilysrwydd

Y nodweddion hynny sy'n adlewyrchu ac yn ymgorffori gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol ased hanesyddol orau.

Diogelu

Cadw rhag niwed.

Dynodiad

Cydnabod gwerth(oedd) treftadaeth penodol ased hanesyddol drwy roi statws ffurfiol iddo o dan y gyfraith neu bolisi gyda'r nod o gynnal y gwerthoedd hynny.

Gwaith adfer

Adfer ased hanesyddol i gyflwr cynharach hysbys, ar sail tystiolaeth gymhellol heb ddamcaniaethu.

Gwaith adnewyddu

Datgymalu elfen o ased hanesyddol yn gyfan gwbl a'i hailosod, yn achos strwythurau, fel arfer ymgorffori unedau sefydlog unwaith eto.

Gwaith addasu

Gwaith a wneir er mwyn newid swyddogaeth neu ymddangosiad ased hanesyddol.

Gwaith atgyweirio

Gwaith y tu hwnt i waith cynnal a chadw, er mwyn unioni diffygion a achoswyd gan ddirywiad, difrod neu ddefnydd, gan gynnwys mân waith addasu er mwyn sicrhau canlyniad cynaliadwy ond heb gynnwys gwaith adfer nac addasu.

Gwaith cynnal a chadw

Gwaith arferol y mae angen ei wneud yn rheolaidd i gadw adeiledd hanesyddol mewn cyflwr da.

Gwerth

Agwedd ar werth neu bwys, yma'r gwerth neu'r pwys y mae pobl yn ei roi ar asedau hanesyddol.

Gwerth, cymunedol

Gwerth sy'n deillio o ystyr lle i bobl sy'n uniaethu ag ef, neu y mae'n rhan o'u profiad neu eu cof.

Gwerth, esthetig

Gwerth sy'n deillio o'r ffyrdd y mae lle yn ysgogi pobl yn synhwyraidd neu'n ddeallusol.

Gwerth, hanesyddol

Gwerth sy'n deillio o'r ffyrdd y gellir cysylltu pobl, digwyddiadau ac agweddau ar fywyd yn y gorffennol drwy le hyd at heddiw.

Gwerth, tystiolaethol

Gwerth sy'n deillio o botensial lle i roi tystiolaeth o weithgarwch dyn yn y gorffennol.

Gwerthoedd, treftadaeth

Cyfanswm y pedwar gwerth (tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol).

Gwrthdroadwy

Yn gallu cael ei wrthdroi fel y gellir adfer y cyflwr blaenorol.

Gwrthrych

Unrhyw beth nad yw (bellach) wedi'i gysylltu â'r amgylchedd hanesyddol nac wedi'i ymgorffori ynddo, ond a fu'n gysylltiedig ag ef.

Lleoliad

Yr ardal o amgylch ased hanesyddol, ei gyd-destun lleol, gan gynnwys cydberthnasau â'r dirwedd gyfagos heddiw ac yn y gorffennol.

Newid naturiol

Newid sy'n digwydd yn yr amgylchedd hanesyddol heb ymyrraeth ddynol, a all ofyn am ymatebion rheoli penodol (yn enwedig gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu cyfnodol) er mwyn cynnal arwyddocâd lle.

Niwed

Newid er gwaeth, yma yn cyfeirio'n bennaf at effaith ymyriadau amhriodol ar werthoedd treftadaeth ased hanesyddol.

Perthnasol

Yn berthnasol i rywbeth ac yn cael effaith sylweddol arno, yn mynnu ystyriaeth

Safle

Lleoliad ased hanesyddol.

Treftadaeth

Pob adnodd a etifeddwyd y mae pobl yn ei werthfawrogi am resymau y tu hwnt i ddefnyddioldeb yn unig.

Treftadaeth, diwylliannol

Asedau a etifeddwyd y mae pobl yn eu hadnabod ac yn eu gwerthfawrogi fel adlewyrchiad a mynegiant o'u gwybodaeth, eu credoau a'u traddodiadau wrth iddynt ddatblygu, ac o'u dealltwriaeth o gredoau a thraddodiadau pobl eraill.

Treftadaeth, naturiol

Cynefinoedd, rhywogaethau, ecosystemau, daeareg a thirffurfiau a etifeddwyd gan gynnwys y rhai mewn ac o dan ddŵr; y mae pobl yn rhoi gwerth amynt.

Tryloyw

Yn agored i graffu cyhoeddus.

Ymyrryd / ymyrraeth

Unrhyw weithred sy'n cael effaith ffisegol ar adeiledd ased hanesyddol.

1. *Gwaith cadwraeth yn Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy.*
2. *Castell Dinefwr, Sir Gaerfyrddin.*
3. *Siambr yr Iarll yng Nghastell Cas-gwent, Sir Fynwy.*
4. *Gwaith cadwraeth ym Mhlas Mawr, Conwy.*
5. *Llys yr Esgob Tyddewi, Sir Benfro.*
6. *Capel Jerusalem, Bethesda, Gwynedd (O Hawlfraint y Goron: CBHC).*
7. *Tirwedd ffermio hynafol, Ynys Sgomer, Sir Benfro (O Hawlfraint y Goron: CBHC).*
8. *Pompren newydd yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd.*
9. *Cloddio Cae'r Priorddy yng Nghaerllion, Casnewydd.*
10. *10–12 Dunraven Place, Pen-y-bont ar Ogwr.*
11. *Tirwedd ddiwydiannol Blaenau Ffestiniog, Gwynedd (O Hawlfraint y Goron: CBHC).*
12. *Aberaeron, Ceredigion (O Hawlfraint y Goron (2009) Croeso Cymru).*
13. *Troedrhiwfallen, Cribyn, Ceredigion (O Greg Stevenson).*
14. *Gwarchodwr yn Nhŷ Cregyn Cilwendeg, Sir Benfro.*
15. *Castell Aberlleiniog, Ynys Môn (O Cronfa Dreftadaeth y Loteri).*



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Plas Carew

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000

Ffacs: 01443 33 6001

www.cadw.cymru.gov.uk

Cyhoeddwyd Mawrth 2011

© Hawlfraint y Goron 2011

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol. Am fanylion cysylltwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 33 6000.